Eich Bywyd - Eich Taith

Enillydd 5-7 oed
Gludwaith Cyfrwng Cymysg
Sylwadau'r beirniaid

Darn o waith gwirioneddol o ryfeddol. Mae'n gynllun mor unigryw ar gyfer coeden deulu/hanes bywyd. Fe ges i deimlad go iawn o bwy yw'r plentyn, beth maen nhw'n ei hoffi, a'r holl bobl bwysig yn ei bywyd. Yn weledol mae'r darn yn wych a phob tro rwy'n edrych arno rwy'n gweld rhywbeth newydd nad oeddwn i wedi sylwi arnynt o'r blaen. Mae'n amlwg bod llawer o waith wedi'i roi iddo yn enwedig lliwio'r holl gefndir sydd yn amlwg wedi cymryd amser felly da iawn.

Roedd hyn mor ddiddorol i amsugno – nid yn unig stori'r plentyn – digwyddiadau a hoffterau – ond sut y portreadir y teulu o'i gwmpas. Gydag atgofion amdano yn fach, roeddwn i wir wedi mwynhau ei weld fel y mae heddiw a hefyd yn mwynhau dilyn ei daith.

Mae hwn yn ddarn hardd o waith celf, roeddwn wrth fy modd bod y person hwn wedi tynnu o amgylch silwét ei gorff a chreu coeden, gyda'r gwreiddiau yn ddechrau taith y bywyd a'u corff cyfan yn cynnwys pobl, pethau a lleoedd sy'n bwysig iddynt ac yn rhan ohonynt. Syniad mor wych i ddangos sut mae pob rhan o daith dy fywyd yn rhan o bwy wyt ti.